Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU
Funded by
UK Government

## Amodau a thelerau

## Beth yw Cronfa Grantiau Cymunedol Hamdden Sir Ddinbych?

Bydd Cynllun Grantiau Cymunedol Hamdden Sir Ddinbych yn fodd i sefydliadau bach fel clybiau chwaraeon lleol a grwpiau celfyddydol i ymgeisio am gyllid i ariannu celfyddydau lleol, gweithgareddau diwylliannol a chreadigol a chyfleusterau chwaraeon i gynnal twrnameintiau a thyfu timau a chynghreiriau newydd.

Bydd y cynllun Grantiau Cymunedol ar gael i'r holl glybiau a sefydliadau cymwys yn Sir Ddinbych ond byddwn yn rhoi sylw penodol i sicrhau y cefnogir ardaloedd difreintiedig. Anogir clybiau a sefydliadau i gynnig prosiectau sy'n cefnogi grwpiau lleiafrifol.

Mae cyllid cyfalaf a refeniw ar gael.

**CYFALAF** Gellir defnyddio cyllid cyfalaf i brynu asedau mawr, naill ai'n newydd neu'n waith adnewyddu sylweddol ar asedau presennol. Disgwylir i'r rhain fod â "budd cymunedol ehangach" a bod ganddynt hyd oes ddisgwyliedig o 5 mlynedd o leiaf. Er enghraifft, byddai goliau pêl-droed mawr gwerth £2000 yn gyfalaf.

**REFENIW** - Gellir defnyddio cyllid refeniw lle nad oes ased parhaol sylweddol. Gellir defnyddio cyllid refeniw i gynnal digwyddiadau, perfformiadau a gweithgareddau, talu am gostau rhedeg sefydliad neu dalu am deithiau a gwibdeithiau. Byddai cit ar gyfer clybiau chwaraeon a darnau bach o offer yn cael eu dosbarthu fel refeniw. Gall hyn fod ar gyfer hamdden, chwaraeon, celfyddydau, diwylliant neu iechyd a lles. Mae'n rhaid dangos budd i'r gymuned.

## Pwy sy'n gymwys i ymgeisio:

- ✓ Grwpiau cymunedol a gwirfoddol
- ✓ Clybiau chwaraeon neu fudiadau cymunedol dielw
- ✓ Cynghorau Tref a Chymuned
- ✓ Elusennau sy'n darparu gwasanaethau lleol a chefnogaeth (gan gynnwys grwpiau mewn lifrai)
- ✓ Ysgolion a sefydliadau addysgol

## Nid yw'r cyllid ar gael i:

Sefydliadau masnachol a chlybiau a chyfleusterau chwaraeon ag aelodaeth breifat.

**Ni ddyfernir cyllid ar gyfer:**

Prosiect na fydd ond un unigolyn yn elwa arno

Ôl-ariannu gwaith a gyflawnwyd eisoes

Prosiectau a gynhelir y tu hwnt i ffiniau Sir Ddinbych

Recriwtio staff ar gontractau

Lifrai/dillad (ond byddai dillad ar gyfer tîm chwaraeon newydd yn dderbyniol)

Costau swyddfa neu storio.

### I fod yn gymwys mae'n rhaid ichi ddangos sut fydd y prosiect yn hybu un o amcanion y Gronfa Ffyniant Gyffredin:

- Cefnogi gweithgareddau creadigol, diwylliannol, treftadaeth a chelfyddydau lleol
- Cyllid ar gyfer cyfleusterau chwaraeon, twrnameintiau, timau a chynghreiriau lleol; i ddod â phobl at ei gilydd.

Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd fod â chyfansoddiad ysgrifenedig, set o reolau neu ddogfen lywodraethu a bydd yn rhaid iddo fod â chyfrif banc neu gymdeithas adeiladu gydag o leiaf dau o lofnodwyr.

### Am faint allaf wneud cais?

Gallwch ymgeisio am grant CYFALAF gwerth rhwng £2,000 a £20,000.
Gallwch ymgeisio am grant REFENIW gwerth rhwng £500 a £20,000. NI CHAIFF CYFANSWM y cais, fodd bynnag, fod yn FWY NA £20,000.
Er enghraifft, gallwch wneud cais am grant refeniw o £10,000 a grant cyfalaf o £10,000 (cyfanswm o £20,000) NEU gallwch ymgeisio am grant cyfalaf gwerth £20,000 yn unig, ond chewch chi ddim ymgeisio am grant refeniw o £20,000 a grant cyfalaf o £20,000 (cyfanswm o £40,000).

Sylwer bod disgwyl i nifer y grantiau mawr a ddyfernir fod yn sylweddol llai na'r gweddill a bydd mwy o graffu arnynt.

**Mae'r holl grantiau (cyfalaf a refeniw) yn agored i glybiau chwaraeon, sefydliadau celfyddydol a diwylliannol.**

| | Cyfalaf | Refeniw |
|---|---|---|
| **23/24** | £60,000 Cyfanswm<br>(£20,000 ar gyfer y celfyddydau a diwylliant a £40,000 ar gyfer chwaraeon) | £0 |
| **24/25** | £200,000 Cyfanswm<br>(£40,000 ar gyfer y celfyddydau a diwylliant a £160,000 ar gyfer chwaraeon) | £170,000 Cyfanswm<br>(£72,500 ar gyfer y celfyddydau a diwylliant a £97,500 ar gyfer chwaraeon) |

## Sut i ymgeisio

Gallwch wneud cais trwy lawrlwytho'r ffurflen gais oddi ar ein gwefan. Bydd angen dychwelyd y ffurflen wedyn i activecommunities@denbighshireleisure.co.uk neu drwy'r post i'r Tîm Cymunedau Bywiog, Hamdden Sir Ddinbych, 8-11 Trem y Dyffryn, Stad Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych LL16 5TX.

Cadarnhewch yn gyntaf bod eich sefydliad a'r prosiect yn gymwys.

Atebwch bob un o'r cwestiynau ar y ffurflen gais.

Gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg neu Saesneg, ac ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg.

## Graddfeydd amser

Bydd yno DDAU brif gylch ar gyfer ceisiadau:

**CYLCH 1:**Yn dechrau ddydd Llun 13 Tachwedd a dod i ben ar 11 Rhagfyr 2023 **Cyllid cyfalaf yn unig**

**CYLCH 2:**Yn dechrau ddydd Llun 22 Ionawr 2024 a dod i ben ar 19 Chwefror 2024 **Cyllid refeniw a/neu chyfalaf**

Bydd panel grantiau annibynnol yn asesu'ch cais ynghyd â'r rhai eraill ac yn dethol y ceisiadau cryfaf. Cewch eich hysbysu o ganlyniad eich cais cyn pen 6-8 wythnos ar ôl y terfyn amser ar gyfer ceisiadau. Os bydd hynny'n newid oherwydd nifer y ceisiadau neu'u cymhlethdod, fe rown wybod ichi. Os bydd arnom angen gofyn am fwy o wybodaeth ar unrhyw adeg neu gadarnhau manylion yn eich cais, fe gysylltwn â chi.

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

**Beth sy'n digwydd ar ôl gwneud cais?**

Anfonir e-bost at bob ymgeisydd llwyddiannus gyda llythyr cynnig ac Amodau a Thelerau. Hysbysir ymgeiswyr aflwyddiannus drwy e-bost hefyd.

**Mae'n rhaid gwario'r holl gyllid erbyn 31 Hydref 2024 fan bellaf yn ddieithriad.**

Disgwyliwn y bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn darparu gwybodaeth am y datblygiadau diweddaraf yn rheolaidd.

Bydd yn rhaid hefyd i ymgeiswyr llwyddiannus lunio adroddiad Diwedd y Grant ac fe gewch dempled ar gyfer hwnnw wrth i gyfnod y grant ddirwyn i ben.

## Sut i gysylltu â ni

Anfonwch unrhyw gwestiynau i cymunedaubywiog@hamddensirddinbych.co.uk a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi.